Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar: 3 Awst 2026

# Ymateb i Arolygiaeth Prawf EF: Arolygiad Dynamig o Amddiffyn y Cyhoedd yn Rhanbarth Prawf Cymru

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar:  Wythnos yn dechau 10 Awst 2026

## CYFLWYNIAD

Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Mae'n adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid gydag oedolion a phlant.

I ymateb i'r adroddiad, rhaid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS)/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau a gytunwyd ar yr argymhellion, a gytunwyd arnynt yn rhannol neu a ydynt heb gael eu cytuno (gweler y categorïau isod). Os cytunir ar argymhelliad neu os cytunir arno'n rhannol, mae'r cynllun gweithredu yn darparu camau penodol a chamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r camau gweithredu'n glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol gyda'r perchennog, ac mae amserlenni pob cam wedi'u nodi'n glir. Cyhoeddir cynlluniau gweithredu ar wefan HMPPS.

| Term | Diffiniad | Sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|
| Cytunwyd | Cytunwyd ar yr argymhelliad i gyd, mae modd ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy. | Dylai'r ymateb esbonio'n glir sut caiff yr argymhelliad ei gyflawni, ynghyd â'r amserlenni. Dylai camau gweithredu fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol), gymaint ag y bo modd. Dylai'r camau gweithredu fod yn ddigon penodol i gael eu holrhain ar gyfer cynnydd. |
| Cytunwyd yn Rhannol | Dim ond ar ran o'r argymhelliad y cytunwyd, mae'n gyraeddadwy, yn fforddiadwy ac fe fydd yn cael ei weithredu.<br>Efallai na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd, er enghraifft. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad fydd yn cael ei weithredu, ynghyd â chamau CAMPUS, a rhaid iddo gael ei olrhain ar gyfer cynnydd.<br>**Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad – rhaid i'r esboniad nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |
| Heb Gytuno | Ni chytunwyd ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir y rhesymau pam ein bod wedi dewis yr opsiwn hwn.<br>**Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad – rhaid i'r esboniad nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |

**CYNLLUN GWEITHREDU: Arolygiad Dynamig o Amddiffyn y Cyhoedd yn Rhanbarth Prawf Cymru**

| 1.<br>Rhif yr Argymhelliad | 2.<br>Argymhelliad | 3.<br>Cytunwyd/ Cytunwyd yn Rhannol/ Heb Gytuno | 4.<br>Ymateb<br>Camau a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 5.<br>Perchennog Cyfrifol | 6.<br>Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dylai Rhanbarth Prawf Cymru:** | | | | | |
| 1. | Ymgorffori a gwerthuso gweithgarwch gwella presennol i sicrhau ymarfer cyson. | Cytunwyd | Bydd Rhanbarth Prawf Cymru yn ymgorffori ac yn gwerthuso gweithgarwch gwella presennol yn y ffyrdd canlynol:<br><br>• Parhau i gyflawni ffrydiau gwaith Cynllunio, Sicrwydd a Gwella'r Gwasanaeth Prawf (PPAIT) (gan gynnwys Sicrwydd, Ymarfer Effeithiol, DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus), Gweithredu a Mewnwelediadau), i sicrhau cysondeb rhwng blaenoriaethau rhanbarthol a darpariaeth rheng flaen<br>• Gweithgarwch sicrwydd Haen 1 bob mis, gan gynnwys KPS (Safonau Perfformiad Allweddol), RCAT (Offeryn Archwilio Achosion Rhanbarthol) a WAT (Offeryn Archwilio Cymru), wedi'i driongli â data perfformiad ac adborth ansoddol, a fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu cysondeb ymarfer a nodi meysydd i'w gwella<br>• Cyfarfodydd atebolrwydd chwarterol Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf (PDU) i oruchwylio a sbarduno'r ddarpariaeth, gyda chanfyddiadau'n llywio blaenoriaethau ymarfer a gweithgarwch gweithredu effeithiol | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol/Pennaeth PPAIT | Mawrth 2027 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Bydd gweithgarwch sicrwydd yn cael ei fesur drwy welliannau mewn meysydd sy'n berthnasol i arolygiadau, a fydd yn cael eu monitro yn y cyfarfod perfformiad rhanbarthol misol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol<br>• Bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a Phennaeth PPAIT yn adolygu'r holl weithgarwch sicrwydd ym mis Mawrth 2027, i sicrhau bod Rhanbarth Prawf Cymru yn cyflawni'r gwelliannau gofynnol mewn gwaith Diogelu'r Cyhoedd. | | |
| 2. | Datblygu hyder a sgiliau ymarferwyr wrth ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol a sgyrsiau heriol i fynd ati'n effeithiol i nodi, dadansoddi, asesu, cynllunio ac ymateb i ddangosyddion risg. | Cytunwyd | Bydd Rhanbarth Prawf Cymru yn cryfhau gallu ymarferwyr o ran chwilfrydedd proffesiynol, meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau ar sail risg drwy wneud y canlynol:<br><br>• Parhau i ddarparu gweithgarwch wedi'i dargedu sy'n ymwneud ag Ymarfer Effeithiol, DPP a Ffactorau Dynol.<br>• Darparu gweithgarwch dysgu sy'n canolbwyntio ar chwilfrydedd proffesiynol, niwed cudd a risgiau dynamig (gan gynnwys *Datgelu'r Peryglon*), ochr yn ochr â gwreiddio'r defnydd o'r adnodd cyfathrebu strwythuredig SBAR (sefyllfa, cefndir, asesiad, argymhelliad), a dysgu o ymarfer myfyriol ac adolygiadau SFO (Troseddu Difrifol Pellach)<br>• Ymgorffori ymwybyddiaeth o Ffactorau Dynol a SBAR yn y broses gynefino, yn ogystal â hyfforddiant Cymhwyster Proffesiynol yn y Gwasanaeth Prawf i gefnogi defnydd cyson yn ymarferol, wedi'i gefnogi gan ganllawiau a phrosesau cyfathrebu hygyrch | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol/Pennaeth PPAIT/Pennaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Mawrth 2027 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Bydd llywodraethu'n cael ei ddarparu drwy Grŵp Llywio Dull Sefydliad Dysgu Cymru, dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, sy'n cyfarfod bob chwarter. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn yn cael ei adolygu drwy adroddiadau chwarterol ar weithgarwch dysgu a chanfyddiadau sicrwydd<br>• Bydd rhagor o waith i gryfhau effaith y mesurau sy'n cael eu cyflwyno yn cynnwys datblygu dulliau Sicrhau Ansawdd a defnyddio dolenni dysgu a gweithgarwch dysgu gweithredol<br>• Bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a Phenaethiaid PPAIT ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn adolygu effaith y mesurau hyn ym mis Mawrth 2027, i sicrhau eu bod yn datblygu hyder a sgiliau ymarferwyr o ran defnyddio chwilfrydedd proffesiynol. | | |
| 3. | Gwella cysondeb gwaith amlasiantaethol ar lefel weithredol i reoli dulliau cam-drin domestig a diogelu plant, fel yr heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, i sicrhau bod dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol. | Cytunwyd | Bydd Rhanbarth Prawf Cymru yn gwella cysondeb gwaith amlasiantaethol drwy wreiddio'r prosesau rhannu gwybodaeth presennol, canllawiau gweithredol a threfniadau partneriaeth gyda'r heddlu a gwasanaethau plant drwy wneud y canlynol:<br><br>• Gwreiddio'r dull Cadw Pobl yn Ddiogel, gan gynnwys disgwyliadau ar gyfer ymholiadau amserol a pharhaus<br>• Safoni templedi a chanllawiau i wella ansawdd a chysondeb cyfnewid gwybodaeth<br>• Darparu gweithgarwch dysgu ar y cyd ag asiantaethau partner<br>• Ymgymryd â gweithgarwch archwilio ac adolygu amlasiantaethol i nodi a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol/Pennaeth PPAIT/Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd yn y Gymuned | Mawrth 2027 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Darperir goruchwyliaeth drwy lywodraethu rhanbarthol, gan gynnwys Bwrdd Rhannu Gwybodaeth Amlasiantaethol Cymru, dan gadeiryddiaeth Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd yn y Gymuned. Mae'r bwrdd yn cyfarfod bob mis, ac yn bresennol mae cynrychiolaeth o bob PDU a chynrychiolaeth weithredol a swyddogaethol berthnasol; gan gynnwys rolau llys, diogelu, cam-drin domestig, ansawdd neu gydlynwyr. Bydd effaith yn cael ei mesur drwy ganfyddiadau archwiliadau, gwelliannau o ran prydlondeb ac ansawdd gwybodaeth, ac adborth gan bartneriaid<br>• Bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a Phenaethiaid PPAIT a Diogelu'r Cyhoedd yn y Gymuned yn adolygu gwaith amlasiantaethol ym mis Mawrth 2027, i sicrhau bod ansawdd a phrydlondeb yr wybodaeth wedi gwella fel bod dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn cael eu diogelu'n ddigonol. | | |
| 4. | Rhoi trefniadau ar waith i fonitro a gwella ansawdd y gwaith rheoli dedfrydau a wneir gan ymarferwyr i gadw pobl yn ddiogel. | Cytunwyd | Bydd Rhanbarth Prawf Cymru yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro a rheoli dedfrydau'n well drwy ddefnyddio'r fframweithiau sicrwydd sefydledig canlynol (KPS, RCAT, WAT a PAR (Sicrwydd Perfformiad a Risg), goruchwylio rheolwyr ac adrodd ar berfformiad, gan gynnwys:<br><br>• Defnydd systematig o weithgarwch sicrwydd i ganfod diffygion o ran gweithredu, adolygu a gweithgarwch cydlynu amlasiantaethol<br>• Cryfhau'r broses o oruchwylio rheolwyr drwy oruchwyliaeth fyfyriol ac adolygiadau ansawdd<br>• Gwreiddio prosesau adolygu CORRE (Gweithrediadau Canolog, Adsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso) a | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol/Pennaeth PPAIT/Pennaeth Gweithrediadau | Mawrth 2027 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | phrosesau sicrhau ansawdd gweithgarwch CRS (Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir)<br>• Bydd canfyddiadau'n cael eu huwchgyfeirio drwy drefniadau llywodraethu i sbarduno gwelliant ac atebolrwydd. Mae strwythurau llywodraethu yn cynnwys Grŵp Gweithredol misol yr Uwch Swyddogion Prawf, cyfarfodydd Ymarfer Effeithiol chwarterol a threfniadau llywodraethu cynllun busnes CORRE.<br>• Bydd yr effaith yn cael ei mesur drwy ganlyniadau sicrwydd trionglog sy'n edrych ar weithredu ac adolygu cynlluniau'n amserol, a bydd goruchwyliaeth well gan reolwyr dros PPAIT yn arwain ar y gweithgarwch hwn<br>• Bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a Phennaeth PPAIT yn adolygu'r trefniadau ar gyfer monitro ansawdd y gwaith rheoli dedfrydau ym mis Mawrth 2027, i sicrhau bod ansawdd y gwaith a gyflawnir gan ymarferwyr wedi gwella. | | |

| **Argymhellion Rhanbarthol** | |
|---|---|
| Cytunwyd | 4 |
| Cytunwyd yn Rhannol | 0 |
| Heb Gytuno | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

Yn ogystal, gwnaed **dau** argymhelliad ar gyfer Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Bydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn casglu'r holl argymhellion ar lefel genedlaethol sy'n deillio o Archwiliadau Dynamig o Amddiffyn y Cyhoedd (DIPP), a bydd yn darparu ymateb cyfunol i Arolygiaeth Carchardai EF ar ddiwedd y rhaglen DIPP.